**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL**

**SUBJECT:** **PWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL - DYDD IAU, 24 MEHEFIN 2021 DYDD IAU, 24 MEHEFIN 2021**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: D. HANCOCK (CADEIRYDD)

Councillors W. Hodgins (Is-gadeirydd)
M. Day
J. Hill
K. Rowson
K. Pritchard
T. Smith
B. Thomas
G. Thomas
B. Willis
L. Winnett

WITH:

| |
|---|
| Helen Jones (Swyddog) |
| Sally-Ann Evans (Swyddog) |
| Hayley Hawkins (Staff y Cyngor) |
| Dave Thompson (Swyddog) |
| Louise Bishop (Swyddog) |
| Steve Berry (Swyddog) |
| Andrea Jones (Swyddog) |
| Ceri Edwards Brown (Ysgrifennydd) |
| Gwasanaethau Democrataidd (Hysbysu) |
| Pob Cynghorydd (Hysbysu) |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Derbyniwyd yr ymddiheuriadau dilynol am absenoldeb:-<br><br>Cynghorydd D. Bevan<br>Cynghorydd C. Meredith<br>Cynghorydd D. Wilkshire | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| **No. 4** | **<u>IS–BWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion yr is-bwyllgor Trwyddedu Statudol a gynhaliwyd ar 25 Mai 2021.<br><br>PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 5** | **<u>DEDDF TRWYDDEDU 2003 – DATGANIAD POLISI TRWYDDEDU</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad yr Uwqch Swyddog Trwyddedu.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Tîm – Safonau Masnachu a Thrwyddedu y cyflwynwyd yr adroddiad i gael cefnogaeth y Pwyllgor Trwyddedu Statudol ar gyfer Deddf Trwyddedu 2003 – Datganiad Polisi Trwyddedu diwygiedig. Ychwanegwyd fod yn rhaid i'r Polisi Datganiad Trwyddedu gael ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y Cyngor llawn ar ôl ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Trwyddedu Statudol. Caiff felly ei hysbysebu mewn papur newydd lleol cyn dod i rym ar 1 Hydref 2021. Dywedodd y Rheolwr Tîm y caiff y Polisi ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ym mis Gorffennaf os caiff yr opsiwn a ffafrir ei gymeradwyo.<br><br>Hysbysodd y Rheolwr Tîm fod Deddf Trwyddedu 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi Datganiad o Bolisi Trwyddedu bob pum mlynedd sy'n rhoi manylion sut y byddai'n gweinyddu a gweithredu'r Ddeddf.<br><br>Nododd y Rheolwr Tîm ymhellach y newidiadau allweddol a | |

amlinellir yn yr adroddiad ac y cafodd y Polisi Datganiad Trwyddedu ei lunio gyda phartneriaid yr Awdurdod mewn 4 awdurdod arall yng Ngwent, felly mae ganddynt i gyd Bolisi Datganiad Trwyddedu bras debyg. Er fod gwahaniaethau lleol yn seiliedig ar yr ardaloedd dan sylw, nodwyd fod y newidiadau a ddynodwyd yn bennaf yn ymwneud â deddfwriaeth a newidiadau mewn canllawiau llywodraeth leol.

Siaradodd y Rheolwr Tîm am yr adroddiad ymhellach ac amlinellodd y pwyntiau allweddol yng nghyswllt trwyddedau presennol a'r ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd rhwng 23 Mawrth 2021 a 21 Mai 2021.

Ar y pwynt hwn, gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau gan Aelodau.

Nododd yr Is-gadeirydd fod y Polisi Datganiad Trwyddedu yn gadarn ac y gobeithiai y byddai'r newidiadau yn gwneud i landlordiaid sylweddoli fod ganddynt oblygiadau tu allan i baramedrau eu safleoedd o fewn y cymunedau.

Roedd yr Is-gadeirydd yn siomedig na dderbyniwyd unrhyw sylwadau gan Heddlu Gwent, fodd bynnag roedd yn hyderus y byddid, mewn partneriaeth gyda phartneriaid y Cyngor, yn cydymffurfio â'r Datganiad o Bolisi Trwyddedu.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor Trwyddedu Statudol yn cefnogi'r polisi diwygiedig fel y'i manylir yn Atodiad 1, ac argymhellodd ei fod yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn (Opsiwn 1).